

Rheoli arian a gwneud penderfyniadau

Pan fydd dementia arnoch, mae'n bwysig trefnu pethau fel arian, ewyllysiau a phwy fydd yn eich cynorthwyo i wneud penderfyniadau. Os ydych chi'n gyrru, mae pethau mae'n rhaid i chi eu gwneud hefyd.

Mae cael trefn ar bethau yn gallu gwneud i chi deimlo'n well. Mae'n gallu gwneud pethau'n haws wrth i dementia ddatblygu a bydd angen rhagor o gymorth arnoch. Rhowch waith papur mewn man diogel. Siaradwch â rhywun rydych yn ymddiried ynndo/ynnddi i'ch helpu.

Gwasanaethau cymdeithasol a'r asesiad anghenion – Mae pobl sydd â dementia yn gallu cael asesiad am ddim i weld pa gymorth sydd ei angen arnynt. Mae hyn yn gallu arwain at argymhellion, megis cyfarpar, newidiadau i'ch helpu gartref, neu gymorth ymarferol. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn gallu rhoi cyngor i chi am gymorth a gofal. Cysylltwch â'ch cyngor lleol i holi am y gwasanaethau hyn.

Arian – Mae banciau yn gallu rhoi cerdyn 'chip a llofnod' neu ddigyswllt, os yw cofio PIN bob tro yn anodd. Mae rhywun rydych yn ymddiried ynndo/ynnddi yn gallu gwneud eich bancio ar eich rhan.

Cymorth ariannol – Mae rhai pobl â dementia yn gallu cael cymorth ariannol, megis Daliad Annibyniaeth Personol. Rydych yn gwneud hyn trwy'r llywodraeth – www.gov.uk/cymraeg

Materion cyfreithiol – Sicrhewch fod gennych ewyllys gyfredol. Gallwch sefydlu penderfyniad o flaen llaw i wrthod mathau o driniaeth, neu wneud datganiad o flaen llaw. Mae'r rhain yn caniatáu i chi gael dweud eich dweud yn eich gofal meddygol i'r dyfodol.

Gallwch hefyd sefydlu **Lasting power of attorney (LPA) (PŴER ATWRNAI PARHAOL)** yng Nghymru a Lloegr. Mae'n cael ei galw'n EPA yng Ngogledd Iwerddon. Mae hyn yn golygu bod unigolyn yn gallu gwneud penderfyniadau ar eich rhan os nad ydych yn gallu gwneud mwyach. Mae dau fath:

■ **LPA iechyd a lles** – ar gyfer penderfyniadau gofal a thriniaeth feddygol dydd i dydd. Mae'n gallu cwmpasu penderfyniadau hefyd ynghylch lle rydych yn byw.

■ **LPA eiddo a materion** – mae'r atwrnai hwn yn gallu talu biliau, casglu incwm a budd-daliadau. Mae'n gallu cyrchu cyfrifon banc a gwerthu eich cartref ar eich rhan, os oes angen.

Alzheimer's Society (Mae Alzheimer's Society) yn cynnig gwasanaeth am ddim i lenwi ffurflenni LPA os nad oes gennych fynediad at y rhyngwyd, neu nad ydych yn teimlo eich bod yn gallu cwblhau'r ffurflenni ar-lein. Am wybodaeth galwch **03300 947 400** a dywedwch wrth y cynghorwr beth yw eich iaith. Bydd yn rhoi galwad yn ôl i chi â chyfieithydd i'ch helpu.

Gyrru – Yn y pen draw, bydd dementia yn eich atal rhag gyrru'n ddiogel. Efallai na fydd rhaid i chi roi'r gorau i yrru ar unwaith, ond mae'n rhaid i chi ddweud wrth DVLA ym Mhrydain Fawr neu DVA yng Ngogledd Iwerddon am eich dementia. Mae'n rhaid i chi hefyd ddweud wrth yswiriwr eich car. Rhowch alwad i'ch cyngor lleol neu ewch i www.gov.uk/apply-blue-badge i wneud cais am drwydded parcio bathodyn glas i chi neu'ch gofalwr.

Gweithio – Gallech barhau i weithio ar ôl eich diagnosis. Siaradwch â'ch cyflogwr. Os byddwch yn rhoi'r gorau i weithio neu'n gweithio llai o oriau, gallech hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a Chredyd Cynhwysol.



Nid oes rhaid i chi wynebu dementia ar eich pen eich hun. Gweler HS6WEL **Cymorth i bobl â dementia** am gyngor ymarferol ac emosiynol – alzheimers.org.uk/get-support/information-in-your-language



Rydym yma i chi. Os ydych yn bryderus am dementia, rhowch alwad i ni ar **03300 947 400**.



I ganfod cymorth wyneb yn wyneb ac ar-lein yn eich ardal, ewch i alzheimers.org.uk/dementiadiirectory Mae hyn yn cynnwys grwpiau diwylliannol a chrefyddol.